DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

## Severnside Dental Spa

15 Ebrill 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-3875-0


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 2
3. Cyd-destun ........ 4
4. Crynodeb ........ 5
5. Canfyddiadau ........ 7

   Profiad y Claf ........ 7

   Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 10

   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 14

   Ansawdd yr Amgylchedd ........ 17

6. Y Camau Nesaf ........ 19

   Atodiad A ........ 20

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Severnside Dental Spa, sy'n rhan o Integrated Dental Holdings (IDH), yn New Road, y Drenewydd, Powys, SY16 1BD, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar 15 Ebrill 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Nod arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yw darganfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1]

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle'n berthnasol)

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st

- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r defnydd o safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Severnside Dental Spa yn darparu gwasanaethau i tua 7,500 o gleifion ar draws Powys, ac mae rhai cleifion yn teithio o lawer pellach i ffwrdd ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adnabyddir fel Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Ar hyn o bryd, mae'r practis yn eiddo i Integrated Dental Holdings (IDH), cwmni corfforaethol sy'n darparu deintyddiaeth y GIG, preifat ac arbenigol ar draws y DU.[2]

Mae'r practis yn cyflogi tîm staff o dri deintydd (sy'n cynnwys un deintydd dan hyfforddiant), dau hylenydd deintyddol, pedair nyrs ddeintyddol (gan gynnwys un nyrs dan hyfforddiant), derbynnydd, rheolwr practis, a glanhawr.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwasanaethau hylendid y geg
- Corunau, pontydd a dannedd gosod
- Mewnblaniadau deintyddol
- Invisalign
- Endodonteg
- Llawdriniaeth y geg
- Triniaethau cosmetig

Mae Severnside Dental Spa yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol y GIG i ganran fach o gleifion ond yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn bennaf. Yn hyn o beth, bydd darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011 yn berthnasol i unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat.

[2] Gwefan: http://idhgroup.co.uk/, ymwelwyd â hi ym mis Ebrill 2015

## 4. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut mae Severnside Dental Spa yn bodloni'r safonau gofal yn Safonau Iechyd a Gofal mis Ebrill 2015.

### Profiad y Claf

Yn gyffredinol, roedd yr holl gleifion a ymatebodd i holiadur AGIC ac i ni siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn fodlon gyda'r gwasanaethau a dderbynnir. Siaradodd un neu ddau o'r cleifion i ni eu gweld yn ystod y diwrnod yn gadarnhaol iawn am y deintyddion.

Gwelsom fod y daflen gwybodaeth i gleifion yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am y practis ac am y gwasanaethau preifat cyffredinol a gynigir. Fodd bynnag, gan fod y practis yn cynnig gwasanaethau'r GIG erbyn hyn, dylid diweddaru'r wybodaeth ysgrifenedig hon yn unol â hynny.

Ac eithrio un hysbysiad yn gwahodd cleifion i rannu eu sylwadau, eu canmoliaeth neu eu cwynion am y gwasanaeth, ni chynigir unrhyw gyfleoedd ffurfiol i gleifion roi adborth ar y gwasanaeth. Rydym wedi cynghori'r practis i ystyried gwahanol ddulliau eraill at y diben hwn felly.

### Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Canfuwyd gennym fod y cyfleusterau a'r cyfarpar clinigol sydd ar gael yn y practis yn dda ar y cyfan. Pan edrychwyd ar sampl o gofnodion cleifion, gwelsom fod ansawdd y broses o gadw cofnodion hefyd yn dda. Mae gan y staff fynediad at offer a meddyginiaeth frys, ac roeddent wedi derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) blynyddol.

Nodwyd gennym fod angen rhai gwelliannau o ran y broses ddadheintio gyffredinol, storio cynhyrchion deintyddol a gedwir mewn oergell, cydymffurfiad â chanllawiau rheoli heintiau, a gwneud tystysgrifau hyfforddiant diogelwch ymbelydredd y deintyddion ar gael.

### Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Cymerwyd y practis drosodd gan IDH ym mis Medi 2014; fodd bynnag, nid oedd unrhyw beth yn amlwg i gleifion yn safle'r practis i ddynodi presenoldeb IDH. Rydym wedi cynghori IDH felly i gymryd camau prydlon i sicrhau bod cleifion yn gwybod pwy sy'n rhedeg y gwasanaeth a hefyd bod y cyfrifoldebau rheoli rhwng y sefydliad a'r staff yn y practis yn cael eu hegluro.

Bydd angen adolygu polisïau cyffredinol IDH er mwyn sicrhau eu haddasrwydd ar gyfer practis Severnside Dental Spa yng Nghymru.

Gwelsom berthynas waith a chefnogaeth dda rhwng y staff yn ystod yr arolygiad. Roedd tystiolaeth bod y practis yn ymateb i gwynion yn briodol. Fodd bynnag, rydym wedi eu cynghori i wella sut maent yn cofnodi cwynion anffurfiol a ffurfiol; awgrymwyd y dylid gweithredu ar y wybodaeth o gwynion a dysgu ohoni er mwyn gwella gwasanaethau.

**Ansawdd yr Amgylchedd**

Canfuwyd gennym fod y practis, a gafodd ei ailwampio a'i ailaddurno'n ddiweddar, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn darparu amgylchedd braf, golau ac eang i gleifion a staff. Mae'r practis hefyd yn hygyrch i gleifion sy'n defnyddio cadair olwyn.

Rydym wedi cynghori y dylid ailystyried y cyfleuster storio ar gyfer cofnodion archif, gyda'r nod o wella diogelwch y man hwn.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Yn gyffredinol, roedd yr holl gleifion a ymatebodd i holiadur AGIC ac i ni siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn fodlon gyda'r gwasanaethau a dderbynnir. Siaradodd un neu ddau o'r cleifion i ni eu gweld yn ystod y diwrnod yn gadarnhaol iawn am y deintyddion.**

**Gwelsom fod y daflen gwybodaeth i gleifion yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am y practis ac am y gwasanaethau preifat cyffredinol a gynigir. Fodd bynnag, gan fod y practis yn cynnig gwasanaethau'r GIG erbyn hyn, dylid diweddaru'r wybodaeth ysgrifenedig hon yn unol â hynny.**

**Ac eithrio un hysbysiad yn gwahodd cleifion i rannu eu sylwadau, eu canmoliaeth neu eu cwynion am y gwasanaeth, ni chynigir unrhyw gyfleoedd ffurfiol i gleifion roi adborth ar y gwasanaeth. Rydym wedi cynghori'r practis i ystyried gwahanol ddulliau eraill at y diben hwn felly.**

Rhoddodd AGIC holiadur i'w gwblhau gan gleifion i'r practis wythnos cyn yr arolygiad, er mwyn canfod eu safbwyntiau ar y gwasanaethau cyffredinol a dderbynnir. Rhoddwyd 19 holiadur wedi'u cwblhau i ni ar fore'r arolygiad. Yn gyffredinol, dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaethau a dderbynnir; roeddent yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth a bod tîm y practis yn eu croesawu. Ychwanegodd rhai cleifion sylwadau cryno eraill, yn dynodi eu bod yn fodlon 'iawn' yn gyffredinol, neu fod staff yn 'arbennig' o gynorthwyol.

Cawsom sgyrsiau gyda phedwar claf arall yn ystod yr arolygiad. Canfuwyd gennym fod y cleifion hyn wedi symud i'r practis hwn yn dilyn argymhellion a wnaed gan gwsmeriaid eraill. Dywedodd un o'r cleifion i ni siarad â hi iddi fod yn rhydd o boen ers y cyfnod hwyaf y gallai ei gofio ers iddi gofrestru gyda'r deintydd yn Severnside. Dywedodd un neu ddau o gleifion fod y deintyddion yn dda iawn am esbonio eu hopsiynau triniaeth iddynt a chostau'r gwasanaethau hyn.

Gwelsom fod IDH wedi darparu cod ymddygiad o ran cwynion ar gyfer y practis. Roedd taflen gwynion y bwrdd iechyd lleol wedi'i harddangos ar silff ffenestr y llawr gwaelod, ac roedd hysbysiad arall wrth ddod i mewn i'r practis, yn gwahodd cleifion i rannu eu sylwadau, eu canmoliaeth neu eu cwynion. Dywedodd mwyafrif y cleifion a ymatebodd i'n holiadur eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn, ond gan fod y wybodaeth hon wedi'i chwasgaru ar draws wahanol

leoliadau'n gyffredinol, awgrymwyd gennym y dylid grwpio'r wybodaeth hon gyda'i gilydd.

Gwelsom nad oedd amserlen IDH ar gyfer cydnabod cwynion (a nodwyd fel o fewn tri diwrnod) yn cyd-fynd â threfniadau Gweithio i Wella[3] y GIG, sy'n nodi y dylid cydnabod cwynion (gan gleifion y GIG) o fewn dau ddiwrnod gwaith.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae'n rhaid i IDH sicrhau bod gweithdrefn gwyno'r practis ar gyfer cleifion sy'n derbyn gwasanaethau'r GIG yn gyson â threfniadau Gweithio i Wella.***

Roedd y practis yn disgwyl i daflenni gwybodaeth i gleifion gael eu hanfon gan IDH ar adeg ein harolygiad. Edrychwyd ar y daflen gwybodaeth i gleifion a oedd yn cael ei defnyddio yn y cyfamser, a gwelsom fod y wybodaeth yn eglur ac wedi'i hysgrifennu'n dda, gan ddarparu gwybodaeth ddigonol am dîm y practis, y gwasanaethau deintyddol a chosmetig preifat sy'n cael eu darparu, prisiau gwasanaethau preifat, amseroedd agor, a'r weithdrefn gwyno ac yn y blaen. Byddai o fudd i gleifion pe bai'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys ar y taflenni a ddarperir gan IDH, gan gyfeirio hefyd at y ffaith y cynigir gwasanaethau deintyddol y GIG.

Gwelsom fod prisiau gwasanaethau deintyddol y GIG a phreifat yn cael eu harddangos ar wahân yn yr ystafell aros, ond nid oedd hysbysiad y GIG i'w weld yn amlwg. Cytunodd rheolwr y practis i arddangos yr hysbysiadau hyn mewn lleoliad mwy amlwg nesaf at ei gilydd.

Ac eithrio'r hysbysiad sylwadau, canmoliaeth a chwynion uchod, fe'n hysbyswyd nad oedd system reolaidd ar gyfer derbyn adborth cleifion ar y gwasanaeth. Er bod gwefan IDH yn gwahodd adborth cwsmeriaid, nid oedd Severnside Dental Spa wedi'i hysbysebu fel un o'u practisau ar adeg ein harolygiad. Fe'n hysbyswyd bod gan IDH systemau ar gyfer derbyn adborth. Fodd bynnag, roeddent wedi caffael llawer o bractisau deintyddol eraill yn ddiweddar, ac nid oeddent wedi cyflwyno eu holl systemau i'r practis hwn eto, nac wedi diweddaru eu holl wybodaeth ysgrifenedig ac ar y wefan.

---

[3] Mae 'Gweithio i Wella' yn cyflwyno'r trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am ofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru ac ymateb iddynt.

Fe’n hysbyswyd y bu blwch awgrymiadau yn y dderbynfa yn y gorffennol, ond ni ddefnyddiwyd hwn yn briodol. Roedd y practis hefyd wedi dosbarthu arolygon yn y gorffennol, ond dywedasant eu bod yn derbyn yr un ymatebion yn y blychau ticio bob amser, ac felly ni anfonwyd y rhain eto. Rhoddwyd copi o’r arolwg i ni, a oedd yn gofyn i gleifion roi eu barn ar eu profiad, yn amrywio o ‘Cytuno’n Gryf’ i ‘Anghytuno’n Gryf’, yn erbyn 23 maes. Nid oedd unrhyw le ychwanegol i gleifion ysgrifennu sylwadau, ac felly nid oedd hwn yn cynnwys y wybodaeth gyd-destunol sydd ei hangen wrth ochr y datganiadau y rhoddwyd tic yn eu herbyn.

***Gwelliannau sydd eu hangen***

***Dylai IDH sicrhau bod ei wybodaeth ar-lein ac ysgrifenedig yn cael ei diweddaru cyn gynted â phosibl, gan gynnwys practis Severnside. Dylid ystyried anghenion cyfathrebu ac iaith lafar y cleifion sy’n defnyddio’r gwasanaethau yn Severnside yn hyn o beth.***

***Cynghorir y practis i ystyried a datblygu dulliau amrywiol o dderbyn adborth cleifion ar eu profiadau, fel y gall y staff gael dealltwriaeth eglur o’r hyn sy’n gweithio’n dda a’r hyn nad yw’n gweithio’n dda. Dylai’r practis ddangos ei fod yn gweithredu ar yr adborth hwn ac yn dysgu ohono.***

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Canfuwyd gennym fod y cyfleusterau a'r cyfarpar clinigol sydd ar gael yn y practis yn dda ar y cyfan. Pan edrychwyd ar sampl o gofnodion cleifion, gwelsom fod ansawdd y broses o gadw cofnodion hefyd yn dda. Mae gan y staff fynediad at offer a meddyginiaeth frys, ac roeddent wedi derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) blynyddol.**

**Nodwyd gennym fod angen rhai gwelliannau o ran y broses ddadheintio gyffredinol, storio cynhyrchion deintyddol a gedwir mewn oergell, cydymffurfiad â chanllawiau rheoli heintiau, a gwneud tystysgrifau hyfforddiant diogelwch ymbelydredd y deintyddion ar gael.**

Edrychwyd ar yr offer a'r dogfennau radiograffig (pelydr-X), a oedd yn foddhaol. Ceir ystafell benodol ar y llawr daear ar gyfer cymryd delweddau pelydr-X, sy'n gyfleuster da. Roedd gan y ddwy ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf eu hoffer pelydr-X eu hunain. Nid oedd unrhyw arwyddion yn rhybuddio am ymbelydredd, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, y tu allan i'r ystafelloedd hyn.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae'n rhaid arddangos arwyddion rhybudd digonol y tu allan i bob man radiograffig neilltuedig yn y practis, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999.***

Nid oedd gan y deintyddion dystysgrif radiograff a hyfforddiant diogelwch ymbelydredd ar gael i'w harchwilio, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Cawsom sgwrs gyda'r deintyddion, a gytunodd i gael gafael ar dystiolaeth ysgrifenedig, i'w chadw yn y practis. Yn ddiweddarach, rhoddodd un o'r deintyddion restr o'i gofnod datblygiad proffesiynol parhaus i ni, a oedd yn dangos ei fod wedi cwblhau hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) rheolaidd.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae'n rhaid i dystysgrifau hyfforddiant diogelwch ymbelydredd (Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)) fod ar gael i'w harchwilio yn y practis bob amser.***

## Y broses ddadheintio

Ystyriwyd y broses ddadheintio (ar gyfer glanhau a dadheintio offer deintyddol), a chanfuwyd gennym fod yr offer a'r cyfleusterau sydd ar gael, sy'n cynnwys ystafell ddadheintio benodol, yn foddhaol. Roedd cynllun yr ystafell ddadheintio'n dda, ag offerynnau budr a glân wedi'u gwahanu'n eglur. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr un o'r ymarferwyr deintyddol yn gwisgo cyfarpar diogelwch priodol, er enghraifft ffedogau a mygydau wyneb. Roedd yr ymarferwyr yn gwisgo menig diogelwch pan oeddent yn mynd i mewn i'r ystafell ac yn golchi eu dwylo, yn unol â chanllawiau rheoli heintiau.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Dylai'r holl ymarferwyr deintyddol sicrhau eu bod yn gwisgo'r cyfarpar diogelwch personol a argymhellir a chydymffurfio â chanllawiau rheoli heintiau.***

***Awgrymwyd gennym y dylid adolygu proses ddadheintio a phrotocolau rheoli heintiau'r practis ac y dylid atgoffa'r staff o'r gweithdrefnau. Awgrymwyd gennym y gellid arddangos gweithdrefnau cam wrth gam yn yr ystafell ddadheintio.***

Ceir dwy ffwrn aerglos (unedau diheintio) yn y practis, ond dim ond un llyfr log i gofnodi'r archwiliadau beunyddiol. Roedd diwrnodau pan fo dim ond un ffwrn aerglos yn cael ei defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl gwirio pa ffwrn aerglos oedd wedi cael ei harchwilio ar y diwrnodau eraill gan fod y llyfr log yn cynnwys un cofnod yn unig ac nid oedd yn nodi pa ffwrn aerglos yr oedd hwn yn berthnasol iddi. Fe'n hysbyswyd bod yr ymarferwyr deintyddol yn archwilio'r ddwy ffwrn aerglos.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Dylai'r practis allu dangos pa ffwrn aerglos sydd wedi cael ei harchwilio gan ymarferwyr deintyddol. Byddem yn cynghori'r practis i ystyried cael llyfrau log ar wahân at y diben hwn i osgoi dryswch.***

## Offer dadebru a meddyginiaeth

Canfuwyd gennym fod yr offer a'r feddyginiaeth sydd eu hangen os bydd argyfwng ar gael yn y practis. Fe'n hysbyswyd bod IDH yn darparu pecynnau argyfwng mewn cynhwysydd wedi'i selio. Ar adeg yr arolygiad, roedd y pecyn hwn yn un o'r ystafelloedd triniaeth, a oedd yn cael ei defnyddio yn ystod y rhan fwyaf o'r diwrnod, ac felly nid oeddem yn gallu gwirio'r cynnwys a'r dyddiadau terfyn y tro hwn. Dywedodd un o'r deintyddion wrthym fod gan IDH system lle

caiff dyddiadau terfyn eu monitro a bod holl gynnwys y pecyn argyfwng yn cael ei newid pan fydd wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn.

Roedd rhai o’r cynhyrchion deintyddol y mae angen eu cadw mewn oergell yn cael eu storio yn oergell y staff. Ni ellid monitro’r tymheredd gan nad oedd thermomedr, felly nid oedd unrhyw sicrwydd bod y cynhyrchion yn cael eu storio’n unol â chanllawiau’r gweithgynhyrchydd.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Dylai’r practis sicrhau y cydymffurfir â chanllawiau gweithgynhyrchwyr ar gyfer storio meddyginiaeth a chynhyrchion deintyddol bob amser.***

Gwelsom dystiolaeth ysgrifenedig neu dystysgrifau hyfforddiant i ddangos bod y staff wedi derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd yn unol â’r amledd a argymhellir gan y Cyngor Dadebru.

### Gwastraff peryglus ac nad yw’n beryglus

Mae contractau ar waith ar gyfer storio a chasglu gwastraff peryglus ac nad yw’n beryglus, a gwelsom fod gwastraff yn cael ei waredu yn y biniau a/neu’r bagiau gwastraff priodol.

### Cofnodion cleifion

Gwelsom sampl o ddau gofnod fesul deintydd a hylenydd. Roedd ansawdd y broses cadw cofnodion yn dda ar y cyfan, ac yn achos un deintydd, roedd yn rhagorol. Nid oedd dau o’r deintyddion yn cofnodi caniatâd cleifion i driniaeth, yn diweddaru hanesion meddygol cleifion, nac yn dangos eu bod wedi trafod hanes ysmygu cleifion a rhoi’r gorau iddi, y’u hatgoffwyd iddynt ei gofnodi bob amser.

Cyflwynwyd system gyfrifiadurol newydd ers i IDH gymryd y practis drosodd ym mis Medi 2014. Ceir swyddogaeth rybudd yn y system, a byddem yn awgrymu y gallai hon ddechrau cael ei defnyddio i gofnodi unrhyw wybodaeth arwyddocaol, fel alergeddau cleifion.

### Cyfleusterau ac offer deintyddol

Edrychwyd ar bob ystafell driniaeth a gwelsom eu bod yn lân ac wedi’u stocio’n ddigonol. Roedd un o’r deintyddion yn defnyddio dyfais wahanol i ail-weinio nodwyddau; trafodwyd y dyfeisiau sydd ar gael i sicrhau bod y perygl o

anafiadau gan offer miniog yn cael ei leihau. Roedd un o’r nodwyddau a symudwyd wedi cael ei gadael ar y cynhwysydd ar yr arwyneb gwaith yn un o’r ystafelloedd triniaeth yn ystod amser cinio. Cytunodd y deintydd i atgoffa’r staff i gael gwared ar nodwyddau sydd wedi’u defnyddio yn ddiogel ac ar unwaith er mwyn atal y perygl o anaf.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Dylid cael gwared ar nodwyddau sydd wedi’u defnyddio yn ddiogel, ar unwaith, ar ôl eu defnyddio.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Cymerwyd y practis drosodd gan IDH ym mis Medi 2014; fodd bynnag, nid oedd unrhyw beth yn amlwg i gleifion yn safle'r practis i ddynodi presenoldeb IDH. Rydym wedi cynghori IDH felly i gymryd camau prydlon i sicrhau bod cleifion yn gwybod pwy sy'n rhedeg y gwasanaeth a hefyd bod y cyfrifoldebau rheoli rhwng y sefydliad a'r staff yn y practis yn cael eu hegluro.**

**Bydd angen adolygu polisïau cyffredinol IDH er mwyn sicrhau eu haddasrwydd ar gyfer practis Severnside Dental Spa yng Nghymru.**

**Gwelsom berthynas waith a chefnogaeth dda rhwng y staff yn ystod yr arolygiad. Roedd tystiolaeth bod y practis yn ymateb i gwynion yn briodol. Fodd bynnag, rydym wedi eu cynghori i wella sut maent yn cofnodi cwynion anffurfiol a ffurfiol; awgrymwyd y dylid gweithredu ar y wybodaeth o gwynion a dysgu ohoni er mwyn gwella gwasanaethau.**

Sefydlwyd Severnside Dental Spa gyntaf ym 1985. Cymerwyd y practis drosodd gan Integrated Dental Holdings (IDH) ym mis Medi 2014. Fe'n hysbyswyd bod y practis wedi bod yn eiddo i ddau gwmni arall cyn hynny, un am tua phum mlynedd ac un arall o 2011 tan fis Medi 2014. Roedd yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn amser anodd i'r staff felly, wrth iddynt arfer â thîm rheoli newydd, systemau, polisïau a gweithdrefnau newydd ac yn y blaen.

Nid oedd y ffaith bod Severnside yn cael ei redeg gan IDH yn amlwg yn weledol yn ystod yr arolygiad. Er enghraifft, nid oedd y practis wedi'i restru ar wefan IDH, nid oedd unrhyw daflenni cleifion IDH ar gael, nid oedd unrhyw arwyddion IDH, ac roedd strwythur rheoli cyffredinol y practis yn aneglur. Roedd rhai o'r staff yn teimlo eu bod wedi colli rhywfaint o'u hunaniaeth ers i IDH ddechrau cyflwyno gwasanaethau'r GIG.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Dylai IDH gymryd camau prydlon i ddangos arweinyddiaeth effeithiol o Severside Dental Spa. Er enghraifft:***

- ***Dylai cleifion fod â gwybodaeth am y cwmni rheoli sy'n rhedeg y gwasanaeth.***
- ***Dylid diffinio'r cyfrifoldebau cyffredinol o ran rheolaeth ac arweinyddiaeth yn eglur rhwng staff y practis a'r sefydliad.***

***Yn hyn o beth, cynghorir IDH i ystyried y Safonau Iechyd a Gofal ar gyfer llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd Severnside Dental Spa.***

Fodd bynnag, gwelsom berthynas waith dda iawn rhwng y staff yn ystod yr arolygiad. Roedd mwyafrif y staff yn Severnside wedi gweithio yno ers blynyddoedd lawer, ac mae'n bosibl bod hyn wedi cynorthwyo i sicrhau parhad gofal i gleifion. Roedd tystiolaeth bod y staff yn cael eu cefnogi'n dda yn y practis. Gwelsom sampl o gofnodion misol y tîm staff, a oedd yn fanwl ac yn dangos rhannu gwybodaeth a dysgu effeithiol rhwng staff. Mae rheolwr y practis yn cynnal gwerthusiadau staff yn flynyddol.

Gwelsom dystysgrifau cofrestriad y deintyddion gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ond nid oedd eu tystysgrifau cofrestraid ag AGIC wedi'u harddangos, fel sy'n ofynnol. Cytunodd y deintyddion i ddod â'r rhain i mewn i'r practis.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae'n rhaid glynu tystysgrifau cofrestru AGIC mewn man amlwg yn y practis (fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008).***

Roedd IDH wedi cynnal archwiliadau newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff yn y practis, a welwyd gennym yn ystod yr arolygiad ac yr ystyrir yn arfer da.

Edrychwyd ar sampl o bolisïau a gweithdrefnau IDH, a oedd ar gael i'r staff ar-lein. Roedd rheolwr y practis wedi cael llofnodion y staff i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall rhai o'r polisïau allweddol, a nodwyd gennym, unwaith eto, fel arfer da. Ni ellid dod o hyd i'r polisi amddiffyn oedolion yn ystod yr arolygiad hwn, a chytunodd rheolwr y practis i gael gafael ar gopi o hwn. Gwelsom fod y staff wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn oedolion a phlant.

Roedd rhai o'r polisïau'n cyfeirio at ddeddfwriaeth a chanllawiau yn Lloegr, ac atgoffwyd y practis i sicrhau y cyfeirir at y rhai cyfatebol yng Nghymru ar gyfer practis Severnside.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Dylai IDH sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i bractis Severnside yn cyfeirio'n briodol at ddeddfwriaeth a chanllawiau yng Nghymru.***

Ystyriwyd gennym sut yr ymdrinnir â phryderon a/neu gwynion yn y practis. Roedd un neu ddau o gwynion wrthi'n cael eu hymchwilio, ac roedd tystiolaeth bod gwaith dilynol priodol yn cael ei wneud yng nghyswllt y rhain. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw log cwynion cyffredinol i olrhain pob cam o'r cwynion a'r canlyniadau.

Fe’n hysbyswyd bod rheolwr y practis yn cyfarfod â chleifion os byddant yn anfodlon ag unrhyw agweddau ar y gwasanaeth, ac nid oedd y rhain wedi arwain at gwynion ffurfiol. Fodd bynnag, ni chadwyd unrhyw gofnod o’r trafodaethau hyn.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Rydym wedi cynghori’r practis i wella’r dulliau ar gyfer logio cwynion ffurfiol ac anffurfiol. Gellid defnyddio’r wybodaeth hon i nodi unrhyw themâu cyffredin sy’n codi ac i weithredu ar y rhain a dysgu ohonynt i wella gwasanaethau.***

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol yn cael eu gwneud yn y practis i fonitro cydymffurfiad â rheoliadau a safonau perthnasol. Er nad oes argymhelliad penodol wedi cael ei wneud yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant pendant o ran hyn ar adeg yr arolygiad nesaf.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Canfuwyd gennym fod y practis, a gafodd ei ailwampio a'i ailaddurno'n ddiweddar, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn darparu amgylchedd braf, golau ac eang i gleifion a staff. Mae'r practis hefyd yn hygyrch i gleifion sy'n defnyddio cadair olwyn.**

**Rydym wedi cynghori y dylid ailystyried y cyfleuster storio ar gyfer cofnodion archif, gyda'r nod o wella diogelwch y man hwn.**

Mae Severnside Dental Spa yn adeilad sengl mawr ac wedi'i leoli'n gyfleus o fewn pellter cerdded i ganol tref y Drenewydd. Ceir maes parcio o flaen yr adeilad a meysydd parcio cyhoeddus gerllaw. Ni cheir lle parcio neilltuedig i bobl anabl yn y maes parcio, ac awgrymwyd gennym fod hyn yn rhywbeth y gellid ei ystyried yn rhan o ddatblygiadau yn y dyfodol. Ceir ramp a grisiau i gael mynediad at yr adeilad.

Mae un o'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear a'r ddwy ystafell driniaeth arall ar y llawr cyntaf. Ceir toiled i gleifion ar y llawr daear, sy'n addas ar gyfer mynediad i gadair olwyn. Ac eithrio desg y dderbynfa a swyddfa rheolwr y practis ar y llawr daear, mae'r cyfleusterau staff eraill i fyny'r grisiau ac yn cynnwys cegin/ystafell staff a thoiled staff.

Roedd rhai o'r mannau dan do wedi cael eu hailwampio a'u hailaddurno gan IDH, a chanfuwyd gennym fod yr amgylchedd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Ceir cyffyrddiadau personol yn Severnside Dental Spa hefyd – er enghraifft, mae un o'r cleifion yn arlunydd lleol ac roedd rhywfaint o'i gwaith celf wedi ei arddangos mewn gwahanol fannau, a oedd yn lleihau teimlad clinigol yr amgylchedd. Ceir bwrdd a chadeiriau ar gyfer plant iau, a gwelsom stoc o lyfrau a chylchgronau i gleifion yn yr ystafell aros.

Roedd dwy linell ffôn yn y practis ar adeg ein harolygiad, a oedd hefyd yn cynnwys y cysylltiad ar gyfer y peiriant talu. Dywedodd rheolwr y practis fod y llinellau hyn yn brysur drwy'r amser o gofio nifer y cleifion y mae'r practis yn darparu gwasanaethau iddynt. Awgrymwyd gennym felly y dylent ystyried y posibilrwydd o gaffael ffôn ychwanegol gydag IDH.

Canfuwyd gennym fod lle storio yn y practis yn gyfyngedig. Fe'n hysbyswyd am y lleoliad ar gyfer cofnodion cleifion wedi'u harchifo, a gwnaethom gynghori y dylid ailystyried hwn, neu y dylid gwneud man storio mwy diogel ar gael at y diben hwn.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Cynghorir IDH i adolygu'r trefniadau ar gyfer storio cofnodion cleifion a chymryd camau i wella diogelwch y cyfleuster storio at y diben hwn.***

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella. Mae manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Severnside Dental Spa yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Severnside Dental Spa

## Dyddiad yr Arolygiad: 15 Ebrill 2015

| Rhif Tudalen | Gwelliant sydd ei Angen | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 8 | **Mae’n rhaid i IDH sicrhau bod gweithdrefn gwyno’r practis ar gyfer cleifion sy’n derbyn gwasanaethau’r GIG yn gyson â threfniadau Gweithio i Wella.** (Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 6.3) | | | |
| 9 | **Dylai IDH sicrhau bod ei wybodaeth ar-lein ac ysgrifenedig yn cael ei diweddaru cyn gynted â phosibl, gan gynnwys practis Severnside. Dylid ystyried anghenion cyfathrebu ac iaith lafar y cleifion sy’n defnyddio’r gwasanaethau yn Severnside yn hyn o beth.** | | | |

| Rhif Tudalen | Gwelliant sydd ei Angen | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | (Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 3.2)<br><br>**Cynghorir y practis i ystyried a datblygu dulliau amrywiol o dderbyn adborth cleifion ar eu profiadau, fel y gall y staff gael dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda. Dylai'r practis ddangos ei fod yn gweithredu ar yr adborth hwn ac yn dysgu ohono.**<br>(Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 6.3) | | | |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| 10 | **Mae'n rhaid arddangos arwyddion rhybudd digonol y tu allan i bob man radiograffig neilltuedig yn y practis, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999.**<br>(Safonau Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2.1 a 2.9) | | | |
| 10 | **Mae'n rhaid i dystysgrifau hyfforddiant diogelwch ymbelydredd (Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio** | | | |

| Rhif Tudalen | Gwelliant sydd ei Angen | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Meddygol)) fod ar gael i'w harchwilio yn y practis bob amser.**<br>(Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2.1) | | | |
| 11 | **Dylai'r holl ymarferwyr deintyddol sicrhau eu bod yn gwisgo'r cyfarpar diogelwch personol a argymhellir a chydymffurfio â chanllawiau rheoli heintiau.**<br><br>**Awgrymwyd gennym y dylid adolygu proses ddadheintio a phrotocolau rheoli heintiau'r practis ac y dylid atgoffa'r staff o'r gweithdrefnau. Awgrymwyd gennym y gellid arddangos gweithdrefnau cam wrth gam yn yr ystafell ddadheintio.**<br>(Safonau Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2.4 a 2.9) | | | |
| 11 | **Dylai'r practis allu dangos pa ffwrn aerglos sydd wedi cael ei harchwilio gan ymarferwyr deintyddol. Byddem yn cynghori'r practis i ystyried cael llyfrau log ar wahân at y diben hwn i osgoi dryswch.** | | | |

| Rhif Tudalen | Gwelliant sydd ei Angen | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | (Safonau Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2.4 a 2.9) | | | |
| 12 | **Dylai'r practis sicrhau y cydymffurfir â chanllawiau gweithgynhyrchwyr ar gyfer storio meddyginiaeth a chynhyrchion deintyddol bob amser.**<br>(Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2.6) | | | |
| 13 | **Dylid cael gwared ar nodwyddau sydd wedi'u defnyddio yn ddiogel, ar unwaith, ar ôl eu defnyddio.**<br>(Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2.6) | | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 14 | **Dylai IDH gymryd camau prydlon i ddangos arweinyddiaeth effeithiol o Severside Dental Spa. Er enghraifft:**<br>• **Dylai cleifion fod â gwybodaeth am y cwmni rheoli sy'n rhedeg y gwasanaeth.**<br>• **Dylid diffinio'r cyfrifoldebau cyffredinol o ran rheolaeth ac** | | | |

| Rhif Tudalen | Gwelliant sydd ei Angen | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **arweinyddiaeth yn eglur rhwng staff y practis a'r sefydliad.**<br><br>(Yn hyn o beth, cynghorir IDH i ystyried y Safonau Iechyd a Gofal ar gyfer llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd Severnside Dental Spa.) | | | |
| 15 | **Mae'n rhaid glynu tystysgrifau cofrestru AGIC mewn man amlwg yn y practis (fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008).**<br>(Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 7.1) | | | |
| 15 | **Dylai IDH sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i bractis Severnside yn cyfeirio'n briodol at ddeddfwriaeth a chanllawiau yng Nghymru.**<br>(Llywodraethiant, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol) | | | |
| 16 | **Rydym wedi cynghori'r practis i wella'r dulliau ar gyfer logio cwynion ffurfiol ac anffurfiol. Gellid defnyddio'r wybodaeth** | | | |

| Rhif Tudalen | Gwelliant sydd ei Angen | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **hon i nodi unrhyw themâu cyffredin sy'n codi ac i weithredu ar y rhain a dysgu ohonynt i wella gwasanaethau.** (Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 6.3) | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| 18 | **Cynghorir IDH i adolygu'r trefniadau ar gyfer storio cofnodion cleifion a chymryd camau i wella diogelwch y cyfleuster storio at y diben hwn.** (Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 3.5) | | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (printiwch):** ..........................................................................................

**Teitl:** ..........................................................................................

**Dyddiad:** ..........................................................................................